# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 26 Tachwedd 2020

Amser: 09.15 - 12.27

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6548

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Lynne Neagle AS (Cadeirydd)<br>Dawn Bowden AS<br>Suzy Davies AS<br>Siân Gwenllian AS<br>Laura Anne Jones AS<br>Jack Sargeant AS (yn lle Hefin David AS) |
| Tystion: | Eluned Morgan AS, Y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg<br>Kirsty Williams AS, Y Gweinidog Addysg<br>Tracey Breheny, Llywodraeth Cymru<br>Huw Morris, Llywodraeth Cymru<br>Steve Davies, Llywodraeth Cymru |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br>Tanwen Summers (Ail Glerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc)<br>Sian Thomas (Ymchwilydd) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Lisa Salkeld (Cynghorydd Cyfreithiol)<br>Phil Boshier (Ymchwilydd)<br>Michael Dauncey (Ymchwilydd)<br>Philippa Watkins (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod rhithwir y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

1.2 Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd, ond bod y cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw ar www.senedd.tv.

1.3 Dywedodd y Cadeirydd fod y Pwyllgor wedi cytuno, pe bai hi'n gadael y cyfarfod am unrhyw reswm, y byddai Dawn Bowden AS yn Gadeirydd Dros Dro yn unol â Rheol Sefydlog 17.22.

1.4 Cafwyd ymddiheuriadau gan Hefin David AS. Roedd Jack Sargeant AS yn dirprwyo ar ei ran.

## 2 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer eitem 3.

2.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 3 Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) - trafod yr adroddiad drafft

3.1 Trafododd yr Aelodau benodau o'r adroddiad drafft. Byddai'r adroddiad drafft yn cael ei ystyried eto mewn cyfarfod ffurfiol preifat ddydd Llun 30 Tachwedd.

## 4 Covid-19: sesiwn dystiolaeth gyda Llywodraeth Cymru

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan y Gweinidog Addysg a'r Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg.

4.2 Cytunodd y Gweinidog Addysg i ddarparu gwybodaeth ychwanegol am y gallu a'r cynlluniau sydd ar waith ar gyfer profi myfyrwyr prifysgol cyn iddynt ddod adref dros gyfnod y Nadolig ar gyfer pob sefydliad yng Nghymru.

## 5 Papurau i'w nodi

5.1 Cafodd y papurau eu nodi.

5.1 Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ynghylch COVID-19 ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

5.2 Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ynghylch COVID-19 ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

5.3 Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Gyfarwyddwr Interim Nyrsio a Phrofiad y Claf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe ynghylch COVID-19 ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc

5.4 Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ynghylch COVID-19 ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

5.5 Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ynghylch COVID-19 ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

5.6 Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Addysgu Powys ynghylch COVID-19 ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

5.7 Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan Brif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ynghylch COVID-19 ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

5.8 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at Lywodraeth Cymru ynghylch y cymorth ar gyfer iechyd meddwl a llesiant dysgwyr

5.9 Llythyr gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

5.10 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Addysg ynghylch effaith Covid-19 ar ddysgu ac addysgu o bell

5.11 Llythyr gan y Gweinidog Addysg at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch effaith Covid-19 ar ddysgu ac addysgu o bell

5.12 Llythyr gan y Pwyllgor Deisebau at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ynghylch Deiseb P-05-1024 Er mwyn i ymwybyddiaeth amgylcheddol gael ei gwneud yn orfodol ac yn fodiwl allweddol o fewn Ysgolion yng Nghymru ar gyfer pob blwyddyn (Addysg Gynradd ac Uwchradd)

5.13 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-2022

5.14 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg at y Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg ynghylch Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-2022

5.15 Llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan y Gweinidog Addysg ynghylch penodi Cadeirydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod ac ar gyfer y cyfarfod cyfan ar 30 Tachwedd.

6.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 7 Covid-19 – trafod y dystiolaeth

7.1 Bu'r Pwyllgor yn trafod y dystiolaeth a glywyd yn ystod y sesiwn flaenorol.

7.2 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Lywodraeth Cymru i amlinellu ei farn.